
**Tasg 2**

# Chwaraeon Ninja

## Canolfan Chwaraeon Ninja yn yr ardal

Dychmygwch: mae'r ganolfan hamdden leol eisiau newid un o'r campfeydd yn ganolfan chwaraeon Ninja ac maen nhw'n gofyn i'ch grŵp chi helpu gyda'r cynllunio.

Dyma gynllun y gampfa.



Gweiddi

1. Dewiswch sawl camp i'w cynnwys yn y gampfa.

Gwnewch restr.

2. Dewiswch faint o le fydd ei angen ar bob camp.
Rhannwch y gampfa yn y cynllun yn adrannau arbennig ar gyfer y campau.
Dangoswch fesuriadau pob adran wahanol.

Os ydych chi eisiau help, edrychwch ar y wefan hon.
http://www.crowdfunder.co.uk/the-obstacle-house/

3. Ysgrifennwch ddarn i egluro'r cynllun, gan esbonio beth fydd yn digwydd ym mhob adran.

4. Eglurwch y cynllun i'ch partner / grŵp.

5. Mae diogelwch yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw ganolfan hamdden. Sut byddech chi'n sicrhau bod y bobl fyddai'n cymryd rhan yn ddiogel? Meddyliwch am y campau eu hunain ac am bethau fel hyfforddiant, dillad ac esgidiau, gemau, gwallt ac ati.